**Polisi ar Ddatgan Buddiannau**
**gan Aelodau'r Panel Ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'n bwysig bod Aelodau o'r Panel Ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn gweithredu'n ddiduedd, yn cael eu gweld yn gweithredu'n ddiduedd ac nad yw eu buddiannau personol yn effeithio ar ganfyddiad y cyhoedd o annibyniaeth a didueddrwydd OGCC fel sefydliad. I gefnogi hyn, mae OGCC yn gweithredu polisi clir ar Ddatgan Buddiannau.

## 2. Y Gofrestr Buddiannau

2.1 Dylai aelodau o'r Panel Ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ddatgan unrhyw fuddiannau personol, gwleidyddol neu fusnes a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau fel Aelodau neu os allai gael eu gweld fel rhai sy'n effeithio ar annibyniaeth a didueddrwydd OGCC. Dylid nodi'r rhain yn gynnar fel y gellid eu datgelu a'u cyhoeddi a/neu, lle bo'n briodol, eu datrys.

2.2 Caiff gofrestr o fuddiannau Aelodau'r Panel Ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg felly ei chadw. Bydd hon yn rhestru unrhyw fuddiannau personol (er enghraifft, sy'n codi o gyflogaeth, busnes, perchnogaeth tir neu gwmni y mae gan yr Aelod fuddiant manteisiol ynddo), y gallai cyd-Aelodau, staff OGCC, neu aelodau'r cyhoedd feddwl yn rhesymol y gallent ddylanwadu ar farnau. Bydd hefyd yn cynnwys buddiannau nad ydynt yn ymwneud ag arian Aelodau (er enghraifft, buddiannau sy'n codi o glybiau neu sefydliadau eraill), cysylltiadau gwleidyddol neu aelodaeth a buddiannau aelodau agos o'r teulu, unrhyw berson sy'n byw yn yr un cartref â'r Aelod neu unrhyw berson y gall fod gan yr Aelod gysylltiad personol agos ag ef, pan fo'r rhain yn ymwneud yn agos â gweithgareddau OGCC.

2.3 Gofynnir i Aelodau gwblhau Ffurflen Datgan Buddiannau OGCC yn flynyddol. Wrth gwblhau'r ffurflen, yn ogystal â datgan buddiannau cyfredol, mae gofyn i Aelodau ddatgan buddiannau perthnasol o'r gorffennol perthnasol a oedd ganddynt yn ystod y ddwy flynedd cyn eu penodi i Banel Ymgynghorol a/neu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg OGCC. Gofynnir hefyd i Aelodau ddiweddaru eu datganiadau wrth i newidiadau ddigwydd, a dylent roi gwybod i Ysgrifennydd y Panel Ymgynghorol yn unol â hynny. Bydd hyn yn galluogi'r Ysgrifennydd i sicrhau fod y gofrestr yn gyfredol.

2.4 O ystyried natur rôl yr Aelod, mae cyfyngiadau ar Aelodau o ran cael eu penodi i, neu eu cyflogi gan, gorff o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon, yn enwedig mewn unrhyw uwch rôl neu rôl weithredol. Pan fydd Aelod yn cael ei benodi i eistedd ar fwrdd neu bwyllgor fel aelod allanol annibynnol mewn swyddogaeth graffu (er enghraifft, ar bwyllgor archwilio) neu i rôl Bwrdd, gellir cytuno ar hyn os yw'r Ombwdsmon yn fodlon nad oes unrhyw wrthdaro â rôl y Panel Ymgynghorol na'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Fodd bynnag, byddai hyn yn ôl disgresiwn yr Ombwdsmon ar sail achos.

2.5 Cynghorir aelodau sy'n ymgeisio am rolau o'r fath gyda chyrff sy'n dod o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i drafod y gwrthdaro posibl cyn derbyn penodiadau newydd, petaent yn dymuno aros ar Banel Ymgynghorol a/neu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg OGCC. Pan fydd aelod yn derbyn rôl mewn corff o fewn awdurdodaeth OGCC, rhaid iddo ddiweddaru ei ffurflen Datganiad o Fuddiannau a gyhoeddir ar wefan OGCC ar unwaith, a, os bydd unrhyw drafodaethau yng nghyfarfodydd y Panel Ymgynghorol neu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ymwneud â'r corff y maent yn aelod ohono, rhaid iddynt hefyd ddatgan eu buddiannau yn y cyfarfod a gadael y cyfarfod am gyfnod y drafodaeth.

2.6 Er nad oes gan Aelodau unrhyw rôl mewn materion gweithredol, o ystyried rôl OGCC o ran ymchwilio'n annibynnol i gwynion Cod Ymddygiad, dylai aelodau sy'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol geisio cyngor yn gyntaf gan yr Ombwdsmon a'r Prif Gynghorwr Cyfreithiol a fydd yn ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau, gan ystyried hawliau dynol yr aelod a'r angen i OGCC aros yn wleidyddol niwtral. Os bydd unrhyw wrthdaro buddiannau neu niwed rhesymol ragweladwy i enw da OGCC yn deillio o ymwneud aelod â gweithgareddau gwleidyddol, bydd yr Ombwdsmon yn cytuno â'r Aelod sut i ymdrin â'r gwrthdaro. Dylid datgan unrhyw aelodaeth o blaid wleidyddol yn agored ar y ffurflen Datgan Buddiannau (yn unol â pharagraff 2.2 uchod).

2.7 Disgwylir i aelodau hefyd adolygu eu ffurflenni Datganiad o Fuddiannau yn flynyddol, ar neu cyn 1 Ebrill bob blwyddyn i sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chyhoeddi ar wefan OGCC.

2.8 Ni ddylai aelodau gymryd rhan yn y drafodaeth na phenderfynu ar faterion y mae ganddynt fuddiant personol ynddynt y gallai aelod o'r cyhoedd, o wybod y ffeithiau perthnasol, feddwl yn rhesymol a fyddai'n dylanwadu ar eu barn ar y mater.

2.9 Mewn achosion eraill dylai Aelodau ystyried, mewn ymgynghoriad â'r Ombwdsmon neu'r Prif Gynghorwr Cyfreithiol fel y bo'n briodol, a fyddai cymryd rhan yn y drafodaeth neu benderfynu ar fater yn awgrymu perygl gwirioneddol o ragfarn neu ganfyddiad o ragfarn ar ran aelod gwybodus o'r cyhoedd. Dylid dehongli hyn yn yr ystyr y gallai Aelodau rhoi sylw annheg, boed hynny yn gefnogaeth neu'n anghymeradwyaeth, i achos parti i'r mater dan sylw. Wrth ystyried a oes perygl gwirioneddol o ragfarn neu ganfyddiad o ragfarn mewn perthynas â phenderfyniad

penodol, dylai Aelodau asesu a ydynt nhw, aelod agos o’r teulu, person sy’n byw yn yr un cartref â’r Aelod, cyswllt personol agos neu gwmni, busnes neu sefydliad arall y mae’r Aelod yn gysylltiedig â nhw, yn debygol o gael eu heffeithio’n fwy na mwyafrif y rhai yr effeithir arnynt gan y penderfyniad dan sylw. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, penderfyniad i wahodd tendrau am gontract lle y mae cwmni y mae’r Aelod yn gysylltiedig ag ef mewn sefyllfa llawer gwell nag eraill i'w ennill.

2.10 Lle, yn unol â'r uchod, nad yw Aelodau'n cymryd rhan yn y drafodaeth ynghylch penderfynu ar fater, dylent adael y cyfarfod. Mae hyn oherwydd y gellid meddwl bod presenoldeb parhaus rhywun a oedd wedi datgan buddiant yn debygol o ddylanwadu ar farn yr Aelodau eraill a oedd yn bresennol.

2.11 Os bydd unrhyw gŵyn yn cael ei gwneud am aelod o’r Pwyllgor Archwilio a Risg neu’r Panel Ymgynghorol ynghylch eu hymddygiad mewn cysylltiad â’u rôl fel aelod annibynnol o’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg neu’r Panel Ymgynghorol, caiff hyn ei ystyried yn bersonol gan yr Ombwdsmon.

2.12 Gall methiant ar ran aelod i gydymffurfio â’r Polisi hwn sydd yn (neu sydd â’r potensial i) niweidio enw da OGCC, arwain yr Ombwdsmon i derfynu safle’r aelod ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg neu’r Panel Ymgynghorol heb rybudd ac yn weithredol ar unwaith.

## 3. Datgan Buddiannau mewn Cyfarfodydd y Panel Ymgynghorol/Pwyllgor Archwilio a Risg

3.1 Er mai’r Ysgrifennydd sy’n dal y Gofrestr o Fuddiannau, dylai Aelodau’r Panel Ymgynghorol a’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ddatgan eu buddiannau ym mhob cyfarfod lle mae materion sy’n cael eu trafod, neu sydd i’w trafod, yn effeithio ar eu buddiannau (neu fuddiannau’r teulu). I gynorthwyo gyda’r mater hwn, eitem agenda gyntaf pob cyfarfod fydd ‘Datganiadau o Fuddiannau’, fel bod Aelodau’n cael cyfle i ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl sy’n deillio o unrhyw un o’r eitemau busnes ar agenda’r cyfarfod penodol hwnnw.

****************************************************